



## **Polisi (Adran Addysg Gwynedd)**

### **Darparu ar gyfer disgyblion o grwpiau lleiafrifoedd ethnig(ME)**

#### **1.Cyflwyniad**

Mae ymchwil yn dangos bod cynrychiolaeth rhy uchel o ddisgyblion o sawl grŵp ME yn y grwpiau o ddisgyblion sydd wedi'u gwahardd yn barhaol o ysgolion, neu sydd â chyrhaeddiad isel.

#### **2.Cyd-destun**

2.1 Mae digyblion o grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn gallu wynebu nifer o broblemau sy'n cynyddu'r risg y byddant yn ymddieithrio. Yn eu plith y mae

- Bod yn unig, a dioddef bwlio sydd â chymhelliant hiliol
- Dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol
- Absenoldeb oherwydd gwyliau estynedig yn eu mamwlad

#### **3.Datganiad o fwriad**

3.1 Bydd Adran Addysg Gwynedd yn cynghori a chynorthwyo ysgolion i ddileu gwahaniaethu ar sail hil, hybu cydraddoldeb hiliol, a hybu cysylltiadau hiliol da.

3.2 Bydd Adran Addysg Gwynedd yn monitro'r gwaharddiadau o fewn pob ysgol unigol o dan eu grŵp ethnig

#### **4.Fframwaith Statudol**

4.1 Deddf Cysylltiadau Hiliol 2000

4.3 Deddf Plant 2004

4.4 Deddf Addysg 1996

#### **5.Egwyddorion Sylfaenol**

5.1 Mae gan pob plentyn yr hawl i gael mynediad i addysg cyn ysgol a holl wasanaethau addysg a derbyn pob cyfle a chymorth i ddatblygu'n addysgol ac yn gymdeithasol.

#### **6.Amcanion Adran Addysg Gwynedd**

6.1 Bydd yr Adran yn annog a chefnogi ysgolion wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol

#### **7. Dyletswyddau Corff Llywodraethol Ysgol**

7.1 Sicrhau bod gan yr ysgol ddatganiad ysgrifenedig o'u polisi i hybu cydraddoldeb hiliol.

7.2 Asesu effaith polisiau ar ddisgyblion, staff a rhieni o wahanol grwpiau ethnig

7.3 Monitro gweithrediad eu polisi cydraddoldeb hiliol, trwy gyfeirio at eu heffaith ar y fath ddisgyblion, staff a rhieni.

## **8. Arfer dda i Benaethiaid Ysgolion**

**Mae arweiniad gan y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol (CCH) yn nodi y gellir ychwanegu polisi cydraddoldeb hiliol at bolisi Cyfle Cyfartal yr ysgol cyn belled â bod cyfeiriad penodol at sicrhau cydraddoldeb hilion oddi fewn i, neu fel atodiad i'r Polisi Cyfle Cyfartal**

### **8.1 Rhai nodweddion o bolisi llwyddiannus**

Yn ôl arweiniad y CCH, dylai polisi adlewyrchu cymeriad ac amgylchiadau ysgol

Bydd polisi cynhwysfawr yn nodi sut bydd yr ysgol yn atal gwahaniaethu ar sail hil, hybu perthynas gadarnhaol ym maes cydraddoldeb hiliol yn holl weithgareddau a chynlluniau'r ysgol gan gynnwys gweithgareddau cwricwlaidd.

Bydd polisi effeithiol yn:

- Rhan o Gynllun Datblygu Ysgol
- Nodi sut y gweithredir y cynlluniau a'r dulliau asesu llwyddiant
- Diffinio yn glir cyfrifoldebau ar draws yr ysgol, ac eglurhad o pa gamau y bydd yr ysgol yn ei gymryd os nad yw'r polisi'n cael ei ddilyn.

8.2 Gall absenoldebau tymor hir i ymweld â pherthnasau gael effaith negyddol ar gyrhaeddiad academiaidd disgyblion. Dylai ysgol annog disgyblion i fynd a gwaith wedi'i osod gyda nhw

Dyddiad Mabwysiadu'r polisi yn wreiddiol:

Cadeirydd y Corff Llywodraethwyr:

Pennaeth:

Dyddiad Adolygu'r Polisi:

